



Mehefin 17 2018



Mae'n fore Sul ein cwrdd teuluol. Gareth a Rhiannon Humphreys sydd wedi trefnu'r bore a Bethan Roberts sydd wrth yr organ. Diolch iddyn nhw a chroeso arbennig i ymwelwyr i'n plith. Bydd te a choffi ar ôl yr oedfa.

Y Suliau nesaf.....

Mehefin 24ain – Emlyn Davies, gydag Ann Griffiths ac Eleri Huws yn cyfeilio

Gorffennaf 1af – Sul pentref Efail

Isaf. Oes rywrai yn cynllunio?

Gorffennaf 8ed – bydd ymwelwyr o gapeli Cymraeg y rhanbarth yn ymuno gyda ni am yr oedfa. Wedi'r oedfa bydd taith gerdded i'r rhai hoffai wneud i ben y Garth.

Gorffennaf 15fed – Sul i'r teulu cyfan gyda gemau a picnic yn y parc i ddilyn.

Rhybudd Perygl

Nid yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt gael niwed.

Ebost Gwilym Huws ein hysgrifennydd yw
gehpengwern@yahoo.co.uk
 Cyhoeddiadau at:
geraintrees@hotmail.com

Y Pwyllgor Gweinidogaethu
A wnaiff aelodau'r pwyllgor aros am sgwrs fer wedi'r oedfa os gwelwch yn dda.

Cais sensitif.....

Cyn i ni gwrdd ar fore dydd Sul, mae'r gynulleidfa Saesneg yn cynnal eu hoedfa hwythau yn y capel. Gwerthfawrogir yn fawr petai aelodau'r gynulleidfa Gymraeg yn osgoi dod i mewn i'r adeilad tan 10.30 er mwyn parchu eu tawelwch nhw. Diolch. Maen nhw ar yr un pryd yn mynd i adnewyddu eu hymdrechion i orffen erbyn 10.30.

Merched y Tabernacl

Gorffennaf 5ed
 Cwrdd yn 'Cwrt Insole' am 10.30 am baned a chlonc a hefyd gawn gyfle i fynd o gwmpas y tŷ a'r gerddi.

Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r capel, ebostiwch
carolinerees2@hotmail.com

Negeseuon e-bost

Yn ddiweddar gofynnwyd am eich caniatâd i ddanfôn ebost atoch. Mae ambell un heb ymateb i'r negeseuon ond nid yw'n rhy ddiweddar i wneud hynny am un wythnos arall. Cofiwch ymateb i'r cais cyn gynted â phosib rhag i chi golli'r gwasanaeth hwn yn gyfan gwbl.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar www.tabernacl.org
Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar www.cristnogaeth21.cymru



**Cynhadledd
Flynyddol
Cristnogaeth 21
Dydd Sadwrn,
30 Mehefin 2018**

'Gwneud Synnwyr o'r Ysgrythur'
yng nghwmni'r
Gwir Barchedig Jeffrey John
Deon St. Albans

10:00 Coffi
10:30 Dechrau'r Sesiwn
1:00 Cinio - pawb i dŵd â chinio
1:30 Cyfarfod Busnes
2:15 Diwedd
Tâl Mynediad: £10 ar y dydd

**Capel Salem
Treganna
Caerdydd
CFS IQF**

**CYFAMOD EGLWYSIG Y
TABERNACL:** 'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.

Stafell Fyw Caerdydd
10fed darlith flynyddol Stafell Fyw Caerdydd yn Yr Hen Lyfrgell yn yr Ais, Caerdydd, **ar nos Fawrth 19eg o Fehefin am 7 yh.**

Yr Athro Samantha Thomas o Brifysgol Deakin, Awstralia fydd yn traddodi'r ddarlith ar y testun: 'Amddiffyn y genhedlaeth nesaf rhag niwed/ Protecting our next generation from harm'. Arbenigwraig fyd eang ar gaethiwed i gamblo. Croeso i bawb. , Am ddim, gyda lluniaeth ysgafn.

Mwy o'r Stafell Fyw.....
20fed o Fehefin, Cynhadledd genedlaethol ar gamblo eithafol yn digwydd yn y Pierhead ym Mae Caerdydd rhwng 9.30yb a 4.00yp. Arbenigwyr byd eang yno. Am ddim. Croeso eto i bawb.
Sadwrn 23ain o Fehefin yn y Stafell Fyw, Te Parti Mawreddog rhwng 2.00yp a 4.00yp. Am bris tâl mynediad o £5. Bwyd a diddanwch i'r teulu cyfan.

Dydd Sadwrn nesaf (23ain) o 1 i 3 y prynhawn bydd Cinio Mawr Efail Isaf yn Neuadd y Pentref. Jyst dewch â bwyd i'w rannu.